Solomon: c.971-931 cc

Y brenin doeth

Caredigrwydd / dyfalbarhad / doethineb

Brenin oedd Solomon. Brenin ar Israel. Cyn i Solomon ddod yn frenin, roedd ei dad Dafydd wedi bod yn teyrnasu. Roedd pawb yn hoff o'r brenin Dafydd.

Bu farw'r brenin Dafydd. Brenin da oedd Dafydd. Roedd wedi cael gwared â'r holl elynion oedd wedi ymosod ar ei wlad. Daeth ei fab Solomon yn frenin. Daeth yn ffrindiau â brenin yr Aifft. Priododd â merch brenin yr Aifft.

Un noson cafodd Solomon freuddwyd. Clywodd lais Duw yn gofyn iddo, "Solomon, fe gei di ofyn am rywbeth rwyt ti eisiau."

Atebodd Solomon, "Rwyt ti wedi fy ngwneud yn frenin ar y wlad. Roedd fy nhad yn frenin da. Rwyf innau hefyd eisiau bod yn frenin da. Ond alla i ddim bod yn frenin da heb dy help di. Helpa fi i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg."

"Da iawn, Solomon," meddai Duw. "Gan dy fod wedi gofyn am hyn yn hytrach na gofyn am fod yn gyfoethog, rwyf am dy wneud yn ddyn doeth."

Un diwrnod daeth dwy wraig i weld y brenin Solomon. Roedd gan y gwragedd fabi bach bob un. Ond roedd un babi bach wedi marw. Roedd y ddwy wraig eisiau'r babi bach oedd yn fyw. Meddai un wraig wrth y llall,

"Y fi biau'r babi bach."

"Na," meddai'r llall, "y fi biau'r babi bach."

Doedd y ddwy ddim yn gallu cytuno. Felly, fe aeth y ddwy i weld y brenin Solomon.

Galwodd y brenin ar un o'r milwyr, "Filwr, tyrd â chleddyf miniog i mi." Daeth y milwr â'r cleddyf i'r brenin.

"Fe dorraf y babi bach yn ddau hanner," meddai'r brenin.

Gwaeddodd un o'r gwragedd, "O! Frenin, paid â gwneud dim niwed i'r babi bach. Rho fo iddi hi."

Dywedodd y wraig arall, "Rhanna fo, paid â gadael i mi na hi gael y babi bach." Rhoddodd Solomon y babi bach i'r wraig oedd am iddo fyw. Roedd o'n gwybod mai hi oedd mam y plentyn bach.

Byddai llawer iawn o bobl yn dod at y brenin doeth. Un diwrnod, penderfynodd Solomon fod rhaid adeiladu teml i Dduw.

Anfonodd ei weision i wledydd eraill i chwilio am goed, cerrig, aur ac efydd i adeiladu'r deml. Rhoddodd Solomon wenith ac olew i bobl y gwledydd eraill. Dyma oedd ei ffordd ef o ddweud diolch wrthyn nhw.

Am saith mlynedd bu'r gweithwyr wrthi'n adeiladu'r deml. Byddai'r bobl yn dod i weld y gweithwyr wrth eu gwaith.

"Edrychwch ar y colofnau aur," meddai un o'r bobl.

"Mae'r coed gorau wedi eu defnyddio i wneud y drysau," meddai un arall. Roedd pawb wedi dotio at y deml hardd. Ar ôl i'r gwaith gael ei orffen galwodd y brenin Solomon ar y bobl,

"Mae'r deml wedi gorffen cael ei hadeiladu. Bydd rhaid i ni gael gwasanaeth arbennig i ddiolch i Dduw."

Daeth y bobl o bob cwr o'r wlad i'r gwasanaeth. Solomon ei hun ddywedodd y weddi yn y gwasanaeth. Ar ôl i'r gwasanaeth orffen, roedd gwledd fawr ar gyfer y bobl i gyd.

"Yr oedd Solomon yn caru'r Arglwydd."
1 Brenhinoedd 3:3

O Dduw, Ein Tad
diolch i Ti am bobl ddoeth.
Gwna fi yn berson doeth, bob amser.
Amen.

Pam ydyn ni'n dweud fod Solomon yn ddyn doeth? Oni fyddai'r gair "cyfrwys" yn well gair i'w ddisgrifio?

Solomon: c.971–931 cc